**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

15 Awst 2023

**Hiliaeth mewn ysgolion**

Annwyl Jeremy

Fel y gwyddoch, cwrddais yn ddiweddar â'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig a gododd bryderon am lefelau ac effaith bwlio hiliol mewn ysgolion ledled Cymru. Yn y cyfarfod hwn, amlinellwyd rhai achosion sy'n peri pryder mawr a daeth nifer o faterion i'r amlwg, gan gynnwys:

– Tangofnodi a chofnodi digwyddiadau bwlio fel rhai hiliol eu natur;
– Heriau wrth gofnodi bwlio hiliol; a
– Chysylltiadau rhwng bwlio hiliol, gwahardd o'r ysgol a disgyblion ethnig leiafrifol.

Maent hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor, ac rwyf wedi amgáu copi o'r llythyr. Maent yn codi nifer o gwestiynau a byddem yn croesawu eich barn am y materion hyn.

Rydym yn ymwybodol bod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi diffyg data am fwlio hiliol ac aflonyddu mewn ysgolion, sy'n golygu ei bod yn anodd deall maint y broblem a'r rhwystrau sy'n wynebu plant a phobl ifanc sy'n cael profiad o hiliaeth. Byddwch yn cofio bod mater tebyg ynglŷn â diffyg data penodol am fathau o fwlio ac aflonyddu wedi'i nodi yn ein hymchwiliad i aflonyddu rhywiol gan gymheiriaid y llynedd.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi bod Llywodraeth Cymru "wrthi'n ystyried system o gofnodi a chasglu data i Gymru gyfan, a fydd yn casglu data penodol mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ar sail nodweddion gwarchodedig." A allwch roi diweddariad inni am sut y

mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a phryd rydych yn disgwyl y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am yr hyn a gaiff ei gofnodi a sut?

Rydym hefyd yn deall bod gwaith ar y gweill i adolygu'r canllawiau gwrth-fwlio “Hawliau, Parch, Cydraddoldeb”. A allwch roi diweddariad inni ynghylch pryd y bydd y canllawiau diwygiedig hyn yn cael eu cyhoeddi, a sut y byddant yn rhoi sylw i natur ac effaith benodol bwlio hiliol? Yn olaf, sut fyddwch yn helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i gyflawni'r canllawiau hyn?

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 4 Hydref 2023.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Wedi’i hatodi: Gohebiaeth gan y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.